sir ddinbych denbighshire

# Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2023 - 2024 Cyngor Sir Ddinbych

DRAFT

Cyhoeddwyd Mehefin 2024

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

# Cynnwys


Cynnwys ..... 2

Rhagair ..... 3

Cyflwyniad ..... 4

Crynodeb Gweithredol ..... 6

Cefndir yr adroddiad ..... 8

Materion sy'n codi yn ystod y cyfnod adrodd ..... 8

Safonau Iaith Gymraeg ..... 166

- Cydymffurfiaeth â'r safonau Cyflenwi Gwasanaeth ..... 16
- Cydymffurfiaeth â'r Safonau Gweithredu ..... 17
- Cydymffurfiaeth â'r Safonau Llunio Polisi ..... 19

Cwynion ..... 19

Sgiliau Cymraeg Cyflogeion ..... 24

Gwersi Cymraeg ..... 28

Cynnydd gyda fframwaith 'Mwy na Geiriau' ..... 29

Diweddariad Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg ..... 29

## Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Monitro Blynyddol hwn i chi. Gan fod Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu'r cynllun gweithio'n hyblyg ble mae staff â'r hawl i weithio mewn nifer o ddulliau gwahanol megis gweithio o gartref mae'r defnydd o dechhnoleg gwybodaeth wedi'i fireinio'n ofalus er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Enghraifft yw'r drefn sydd ar gyfer sicrhau bod cyfarfodydd sy'n cael eu gwe-ddarlledu gydag opsiwn i dderbyn cyfieithu o'r Gymraeg pan fydd cyfrannwr yn defnyddio'r Gymraeg. Mae'r Cyngor yn creu cyfleoedd i staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, wyneb yn wyneb ac yn rhithiol.

Bydd Strategaeth 5 mlynedd newydd y Cyngor yn caniatáu i'r staff a chwsmeriaid y Cyngor i gyfathrebu boed hynny yn rhithiol, ar lein neu wyneb yn wyneb yn eu dewis iaith. Gobaith y Strategaeth fydd annog rhagor o staff a chwsmeriaid i ddefnyddio'u gwybodaeth o'r Gymraeg, boed hi'n iaith o'r crud neu yn iaith newydd.

Mae gweithredu'r Safonau Iaith yn bwysig ac mae'n deg dweud bod unrhyw enghraifft o'r Cyngor yn methu â gweithredu un neu ragor o'r Safonau yn achos cyfiawn dros sicrhau nad yw'r diffyg hwn yn cael ei ail-adrodd. Yn yr adroddiad hwn, fe welir enghreifftiau o'r camau gweithredu cadarnhaol a gymerwyd gan y Cyngor wrth ymdrin â thri achos a ddygwyd i sylw'r Cyngor yn ystod y flwyddyn 2023-24.



**Cynghorydd Emrys Wynne**

**Aelod arweiniol dros y Gymraeg, Treftadaeth a Diwylliant**

## Cyflwyniad

Mae'n ofynnol ar y Cyngor o dan Safonau'r Gymraeg, a gyflwynwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn amlinellu'r gwaith a wnaed i gydymffurfio â gofynion y Safonau rhwng Ebrill y 1af a Mawrth 31ain. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ein nawfed flwyddyn o weithredu Safonau'r Iaith Gymraeg. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo'n llwyr i ymateb yn bositif i'r Safonau Iaith ac mae hyn wedi cael ei adlewyrchu ein Strategaeth Iaith Gymraeg 2023-2028, a gyhoeddwyd fis Mehefin y llynedd. Rydym yn hollol ymrwymedig at chwarae ein rhan tuag at yr ymdrechion cenedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Gweld rhestr lawn o'r Safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â hwy**.**

Rydym bellach yn gweithredu'r cynllun gweithio'n hyblyg ble mae staff â'r hawl i weithio mewn nifer o ddulliau gwahanol megis: -

- **Wrth Ddesg:** ar gyfer y rheiny sydd yn bennaf yn gweithio yn y swyddfa ac wrth yr un ddesg;
- **Symudol/Hyblyg:** ar gyfer y rheiny sy'n gorfod treulio rhywfaint o amser y tu allan i'r swyddfa;
- **Ar y cyd:** gweithiwr hyblyg neu weithiwr swyddfa sy'n gorfod gweithio o swyddfa sefydliad arall
- **Cartref**: ar gyfer y rheiny sydd fwyaf tebygol o weithio gartref.

Cafodd y trosglwyddo o weithio mewn swyddfeydd i weithio o gartref ei lyfnhau'n sylweddol gan y defnydd o dechnoleg gwybodaeth ac rydym yn parhau i ddefnyddio'r cyfrwng hwn wrth weithredu'r cynllun gweithio'n hyblyg er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r mwyafrif o'n gweithgareddau wedi dychwelyd i fod wyneb yn wyneb ac mae ymdrechion mawr wedi'u gwneud yn ogystal i greu cyfleoedd i staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, wyneb yn wyneb ac yn rhithiol.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai'r Cyngor drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg mewn bywyd bob dydd.

Pwrpas y Safonau yw:

- rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ar eu dyletswyddau am yr Iaith Gymraeg
- rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y medrant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o wasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd.

o dan y penawdau:

- Cynllunio Gwasanaethau
- Llunio Polisïau
- Hybu
- Cadw Cofnodion.

Rydym yn parhau i gefnogi'r gweithlu wrth weithredu'r Safonau Iaith ag ein targed yw dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg.  Caiff hyn ei wneud trwy hyrwyddo cyrsiau Cymraeg iddynt ddechrau ar eu taith iaith, neu gyrsiau hyder a gweithgareddau mewnol iddynt ddatblygu a meithrin eu sgiliau.

Roedd prif sylw'r Cyngor ar gychwyn 2023/24 ar adolygu'n Strategaeth bresennol i greu Strategaeth 5 mlynedd newydd ar gyfer Sir Ddinbych trwy gydweithio â gwasanaethau'r Cyngor a Fforwm Iaith Sir Ddinbych.  Mae'r Strategaeth wedi ei datblygu o amgylch y weledigaeth o sicrhau fod yr Iaith Gymraeg yn iaith ffyniannus sy'n esblygu o fewn cymunedau Sir Ddinbych, yn ogystal ag o fewn ein sefydliad.  Ei phwrpas yw esbonio sut yr ydym yn bwriadu mynd ati i greu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, annog mwy o ddefnydd o'r iaith ac, yn y pen draw, gweld mwy o siaradwyr erbyn 2028. Cafodd ei chyhoeddi fis Mehefin 2024, ond mae angen ei lansio'n swyddogol yn y Sir o hyd.

Rydym wedi creu ein gweledigaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych.

- Mae addasiad wedi bod i Gynllun Corfforaethol y Cyngor yn ystod y flwyddyn hon ac yn hytrach na chael blaenoriaeth am y Gymraeg oedd yn bodoli ar wahân, cydnabuwyd bod angen i'r Gymraeg gael ei phlethu a'i ffrydio drwy bob un o'r chwe blaenoriaeth o fewn y Cynllun Corfforaethol. Bydd dulliau monitro hyn yn cael eu

rhoi mewn lle ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau yn y cynllun corfforaethol diwygiedig i sicrhau bod y Cyngor y diwallu'r nod hwn.

- Sir ddwyieithog gan fwyaf yw Sir Ddinbych gyda threftadaeth a diwylliant cyfoethog. Rydym yn falch o hyn ac am i'r balchder hwnnw gael ei adlewyrchu yn ein gwaith dyddiol gyda chymunedau, gyda thrigolion a gyda'n staff.
- Rydym wedi ymrwymo i sicrhau fod egwyddorion y Safonau Iaith yn sail i'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd; rydym am i bobl allu cael mynediad at wasanaethau drwy eu dewis iaith naturiol, ar bob cam o'u bywydau.
- Rydym am ychwanegu at ddiwylliant ac ethos dwyieithog y sefydliad, gan ddarparu cyfleoedd hyfforddi a chymdeithasol i'n staff i weithio yn y Gymraeg ac i gynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.
- Rydym am weithio gyda phartneriaid a'r gymuned ehangach i sicrhau fod y Gymraeg yn iaith ffyniannus yn Sir Ddinbych.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r Cyngor wedi parhau i ymateb yn gadarnhaol i'r Fframwaith 'Mwy Na Geiriau' a Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg (rhoddir diweddariad ar y gwaith hwn nes ymlaen yn y ddogfen hon).

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r Cyngor yn bartner gweithgar yn y Bartneriaeth iaith sy'n cael ei arwain gan Fenter Iaith Sir Ddinbych. Mae'r Fforwm yn cynnwys nifer o sefydliadau, lleol a chenedlaethol, sy'n gweithio tuag at hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yn strategol yn Sir Ddinbych.

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg hyd at 2032 Sir Ddinbych yn cynnwys gwybodaeth am uniad y Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol gyda Fforwm Iaith y Sir.  Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ymdrechion swyddogion y Fforwm Iaith wedi bod ar gyfuno'r Fforwm a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg gan ddilyn modelau llwyddiannus eraill. Golyga hyn fod pob cyfarfod yn cael ei rannu'n ddwy ran gydag un rhan yn benodol i Addysg a'r llall yn benodol ar gyfer y Fforwm Iaith.

Rydym wedi creu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Menter Iaith Sir Ddinbych gan eu bod yn derbyn cyllid grant blynyddol gennym.  Am hynny, mae'r Fenter yn cefnogi'r Cyngor yn ei ymdrechion i hyrwyddo a gwella'r Gymraeg yn Sir Ddinbych trwy ddarparu cefnogaeth ewyllys da yn ystod y flwyddyn.  Mae hyn yn cynnwys:-

- Ymarfer siopwr cudd ac adroddiad canlyniadau blynyddol yn ogystal â chanlyniadau'r ffynhonnell data cynradd a fyddai o gymorth i'r Cyngor.
- Cynnal prosiectau penodol a nodwyd ac y cytunwyd arnynt i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yng nghymunedau ac ysgolion Sir Ddinbych.
- Mynychu cyfarfodydd is-grwpiau'r Bartneriaeth Strategol Addysg ac yn cyfrannu at y blaenoriaethau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Strategaeth Iaith Gymraeg.

Mae gan bob Gwasanaeth yn y Cyngor Bencampwr y Gymraeg gyda chyfarfodydd i fonitro cynnydd gyda'r Safonau ynghyd â rhannu arferion da a gweithredu fel cyfaill beirniadol. Mae gennym 2 bencampwr ar gyfer pob gwasanaeth.  Mae gan yr aelodau ddealltwriaeth o anghenion y Safonau a'r strategaeth gysylltiedig yn ogystal â chynnal ymarferion siopwr cudd.

Gwnaed gwaith cyfathrebu mewnol i'r Cyngor eto yn ystod 2023-24 gan barhau i atgyfnerthu'r safonau iaith trwy rannu rhestr wirio wrth ohebu, trefnu cyfarfodydd ac ateb y ffôn.  Rydym hefyd wedi bod yn rhannu rhestrau geirfa â'r staff gyda seineg i gynorthwyo dysgwyr Cymraeg.  Rydym wedi bod yn defnyddio diwrnodau cenedlaethol fel pwynt ffocws megis Dydd Santes Dwynwen, Dydd Gŵyl Dewi, Dydd Miwsig Cymru, Shwmae Su'mae ac ati.

## Cefndir yr adroddiad

Mae llunio adroddiad blynyddol yn rhan o waith sefydliad o hunan reoleiddio. Gweld y dogfennau sydd gennym yn nodi trefniadau'r sefydliad ar gyfer cydymffurfio â'r safonau, datganiad yr iaith Gymraeg a Strategaeth Iaith Gymraeg 2023-2028.

Gorweddai cyfrifoldeb strategol am yr Iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych gyda Thîm Gweithredol Corfforaethol y Cyngor. Y Cyfarwyddwr Arweiniol yw Gary Williams, a'r Aelod Arweiniol gwleidyddol yw'r Cynghorydd Emrys Wynne a oedd yn gyfrifol am yr Iaith Gymraeg, Treftadaeth a Diwylliant dros gyfnod yr adroddiad hwn. Manon Celyn, Swyddog Iaith Gymraeg y Cyngor oedd yn gyfrifol am y gwaith o ymdrin yn weithredol â materion y Gymraeg tan ddiwedd Hydref 2023. Ers hynny, nid oes Swyddog Iaith wedi bod mewn swydd, ond mae unigolyn bellach wedi ei benodi a bydd yn ymgymryd â'r rôl fis Awst 2024.

Os hoffech drafod yr adroddiad dylech gysylltu'n uniongyrchol â'r adran berthnasol drwy e-bost ar cymraeg@sirddinbych.gov.uk

## Materion sy'n codi yn ystod y cyfnod adrodd

### Hyfforddiant Cymraeg a Gyflawnwyd

Gwelir isod fanylion am nifer / canran y staff sydd wedi cael hyfforddiant yn Gymraeg i lefel o gymhwyster penodol a nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn ystod 2022-23.

### Atodiad 1 - Ymwybyddiaeth Iaith (yn cynnwys ysgolion)

| Statws | % |
|---|---|
| wedi'i gwblhau | 74 |
| heb ei gwblhau | 26 |

## Trefniadau goruchwylio/gwirio

Mae llwyddo i sicrhau dau Bencampwr y Gymraeg o fewn pob gwasanaeth yn rhoi'r cyfle i'r gwasanaethau dderbyn cymorth i wirio dogfennau wrth hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, ac mae'r un gefnogaeth yn cael ei rhoi gan y Swyddog Iaith Gymraeg, y tîm Cyfathrebu a siaradwyr Cymraeg rhugl o fewn y timau.

## Gweithlu dwyieithog

Rydym wedi bod yn gwneud llawer o waith allweddol i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac allanol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn sicrhau bod y Safonau Iaith yn cael eu cyflwyno.  Dyma rhai o'r prosiectau hynny:

## Ymgyrch 'Mae gen i hawl'

Ymgyrch genedlaethol yw hon i ddathlu'r gwasanaethau Cymraeg mae Awdurdodau Lleol yn eu cynnig, a'r hawliau sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â nhw. Roedd yn gyfle i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg yn Sir Ddinbych ac i geisio cynyddu'r nifer oedd yn dewis eu defnyddio.  Mae'r ymgyrch farchnata yn sôn am rai o'r hawliau sydd gan y cyhoedd yn ogystal â staff y Cyngor.

## Dydd Santes Dwynwen

Crëwyd cwis am hanes Santes Dwynwen fel rhan o'r dathliadau.  Fe'i rhannwyd yn fewnol ac yn allanol ar ein cyfryngau cymdeithasol.  Fe wnaethom hefyd greu dogfen o eirfa Cymraeg perthnasol a seineg i helpu dysgwyr Cymraeg.

## Diwrnod Shwmae Su'mae

Unwaith eto eleni roeddem yn rhan o ddathliadau diwrnod Shwmae Sumae ar y 15fed o Hydref.  Bwriad y diwrnod yw hyrwyddo'r syniad o ddechrau pob sgwrs gyda 'Shwmae' neu 'Su'mae' gyda'r nod i ddangos bod y Gymraeg yn perthyn i bawb – siaradwyr rhugl, dysgwyr neu os ydych yn swil am eich Cymraeg.  Fe wnaethom rannu ambell neges ar ein cyfrifon cymdeithasol yn ogystal â rhannu'r fideo gafodd ei chreu gennym o ddisgyblion o ysgolion ledled y sir yn pasio pêl rygbi wrth ddweud "shwmae" neu "su'mae".  Y syniad y

tu ôl i hyn oedd mai’r Gymraeg oedd y bêl rygbi a'n bod yn pasio'r iaith ymlaen. [Gwyliwch fideo diwrnod Shwmae Sumae 2023 ar YouTube yma].

## Dydd Miwsig Cymru

Crëwyd rhestr chwarae o ganeuon Cymraeg i'w rhannu gyda staff a'u hannog i chwarae'r rhestr chwarae gartref, yn y gwaith neu wrth deithio yn y car.

## Dydd Gŵyl Dewi

Fe wnaethom rannu gwybodaeth ar ein cyfryngau cymdeithasol am hanes Dewi Sant, a chreu cwis am Dewi Sant.

## Pwyllgor Llywio’r Gymraeg

Mae’r pwyllgor wedi bod yn parhau i gyfarfod ar-lein ac wedi bod yn gwahodd rhai o’n partneriaid i roi cyflwyniad yn y cyfarfodydd ar eu gwaith o fewn y sir.

## Logo Iaith Gwaith/Brawddeg ar waelod e-bost

Mae staff sy'n medru'r Gymraeg yn cynnwys logo ar waelod eu llofnod e-bost i adael i gwsmeriaid a chydweithwyr wybod eu bod yn medru'r Gymraeg. Yn yr un modd, rydym wedi datblygu logo ar gyfer dysgwyr sy’n nodi ‘Dw i’n dysgu Cymraeg’. Mae nifer fawr o ddysgwyr wedi cynnwys y logo hwn ar waelod eu llofnod e-bost.

## Hyrwyddo Safonau'r iaith Gymraeg

Rydym yn parhau i rannu’r dogfennau a grëwyd i hyrwyddo safonau'r iaith Gymraeg i'w rhannu ar dudalen Facebook staff y cyngor, ein newyddlen ddyddiol, mewnrwyd a’n system Visiontime. Rhestr wirio i staff ydyw i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r safonau gan ddilyn y canllawiau a roddwyd. Mae’r templedi yn cynnwys ateb y ffôn yn ddwyieithog, trefnu cyfarfodydd a gohebu.

## Newyddlen ddyddiol a negeseuon e-bost

Yn dilyn cyhoeddi ein Polisi gweithredu’r Gymraeg yn fewnol newydd, rydym wedi gwneud ein newyddlen ddyddiol i staff, ‘Heddiw yn Sir Ddinych / Denbighshire Today’, yn

ddwyieithog yn ogystal ag unrhyw negeseuon e-bost/system sy’n mynd allan i bob un aelod o staff e.e negeseuon larymau tân, negeseuon TGCh ayb.  Mae hyn yn rhan o’n hymdrechion i geisio symud i fod yn gyngor sy’n gweinyddu’n ddwyieithog yn y dyfodol.

## Arolygon cydymffurfiaeth Gwasanaethau

Rydym wedi creu ffurflen Mesur Perfformiad Gwasanaethau a’i hanfon at yr uwch reolwyr i’w chwblhau ar ran eu hadran.  Pwrpas y ffurflen yw gweld os ydym yn parhau i gydymffurfio’n llawn â’r safonau iaith, neu a oes angen mwy o gymorth ar rai gwasanaethau er mwyn bodloni gofynion y safonau.

## Ystadegau defnydd gwefan

| Gwefan | Nifer o ymweliadau* | Nifer yr ymwelwyr** |
|---|---|---|
| www.sirddinbych.gov.uk | 14,960 | 6,054 |
| www.denbighshire.gov.uk | 851,742 | 346,918 |
| **Cyfanswm** | **866,702** | **352,972** |

***Ymweliadau -** mae ymweliadau’n cynrychioli cyfanswm y rhyngweithiadau (h.y. ymweliadau) a wneir gan bobl â'r wefan. (Er enghraifft, gall 1 ymwelydd ymweld â'r wefan 3 gwaith ar yr un diwrnod).

****Ymwelwyr -** ymwelwyr yw nifer yr unigolion / pobl sydd wedi cyrchu'r wefan neu'r dudalen we o fewn y cyfnod adrodd.  Dyma’r nifer unigryw o bobl sy’n ymweld, ni waeth faint o weithiau maen nhw’n ymweld.

## Strategaeth Iaith Gymraeg

Dros y 2 flynedd ddiwethaf rydym wedi bod yn gweithio ar adolygu ein Strategaeth iaith bresenol ar gyfer y bum mlynedd nesaf (2023-28). Mae hi dros bum mlynedd ers i'r fersiwn gyfredol gael ei chymeradwyo, ac yn ystod y cyfnod yma mae nifer fawr o wellianau wedi'u cyflwyno i hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg yn fewnol ac o fewn y gymuned ehangach.

Rydym yn chwarae ein rhan i gyflawni miliwn o Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, drwy ddarparu'r Strategaeth Iaith Gymraeg gyda phartneriaid a chymunedau. Mae hyn yn cynnwys:

- Sicrhau fod pawb yn gallu cael mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn naturiol, ac ar bob cam o'u bywydau
- Cefnogi plant a theuluoedd yn ystod eu blynyddoedd cynnar i ddatblygu hyder o ran defnyddio'r Gymraeg
- Cefnogi'r defnydd ehangach o'r Gymraeg a dathlu'r diwylliant Cymreig yn y gymuned, gan gynnwys lleoliadau gwaith
- Datblygu diwylliant ac ethos sy'n annog defnydd dyddiol o'r Gymraeg gan aelodau etholedig a staff y cyngor, a darparu hyfforddiant a chyfleoedd cymdeithasol i wella eu hyder yn defnyddio'r Gymraeg
- Datblygu'r gwasanaethau sydd ar gael yn y Ganolfan Gymraeg yn Llanelwy er lles y gymuned ehangach.

Comisiynwyd y Ganolfan Cynllunio Iaith (Iaith.cyf) i ysgrifennu adroddiad llwyddiant ar ein Strategaeth bresenol yn unol â Safon 146 a chafwyd adroddiad cyflawn gydag argymhellion defnyddiol ar gyfer y Strategaeth nesaf.

Rydym wedi bod yn cydweithio'n agos gydag adrannau gwahanol o fewn y Cyngor yn ogystal â'r Fforwm Iaith Sirol er mwyn sicrhau fod y Strategaeth yn uchelgeisiol yn unol ag argymhellion y Ganolfan Cynllunio Iaith. Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad yr un amser â'n Strategaeth Iaith o fewn y misoedd nesaf.

## Gweithgareddau Cymraeg Llyfrgelloedd Sir Ddinbych

### Dechrau Da Sir Ddinbych

Mae sesiynau Dechrau Da wedi parhau i ennyn poblogrwydd gyda 12,588 o rieni a phlant yn mynychu Amser Rhigwm yn ystod y flwyddyn – mae pob sesiwn yn naturiol ddwyieithog ac yn cyflwyno caneuon a hwiangerddi Cymraeg i deuluoedd.

Mae'r ddarpariaeth hon yn ganolog i'r strategaeth cyn-ysgol o fewn Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor Sir, ac yn aml dyma'r cyswllt cyntaf â'r Gymraeg i deuluoedd â babanod ifanc. Mewn arolwg, dywedodd 49% o'r rhieni eu bod yn teimlo'n fwy hyderus gyda'r Gymraeg oherwydd mynychu Amser Rhigwm Dechrau Da gyda'u plant bach. Cawsom y sylwadau hyn hefyd gan rieni.

"Mae Dechrau Da yn wych ac rydym yn edrych ymlaen amdano bob wythnos. Dw i wedi bod yn dod ers 6 wythnos bellach ac mae fy mabi yn 10 wythnos oed. Mae hi'n stopio bwydo pan mae'r stori a'r canu'n cychwyn. Mae fy ngŵr yn Gymro Cymraeg ac rydw i'n dysgu, mae Dechrau Da wir yn fy helpu i ddysgu brawddegau a rhigymau i ni eu canu gyda'n gilydd gartref."

"Mae'r ffaith fod y sesiynau yn awr o hyd (mae'r rhan fwyaf o ddosbarthiadau babanod yn para tua hanner awr) ac am ddim yn anhygoel! Rydym hefyd yn mwynhau dathlu'r gwahanol wyliau. Fel rhywun sy'n siarad ychydig o Gymraeg dwi'n ei chael hi'n help mawr i fy mabi glywed Cymraeg yn cael ei siarad, ac i mi ddysgu rhigymau a chaneuon Cymraeg."

"Rydym wrth ein bodd yn dod i'r sesiynau llyfrgell! Mae wedi ein hannog i ddefnyddio'r llyfrgell yn fwy ac rwyf hyd yn oed wedi dechrau benthyca llyfrau eto rhywbeth nad wyf wedi'i wneud ers blynyddoedd!"

"Rwyf hefyd yn hoff iawn o'r iaith arwyddion a'r iaith Gymraeg ac yn awr yn ystyried cofrestru fy mhlentyn mewn ysgol Gymraeg, rhywbeth na fyddwn efallai wedi'i ystyried oni bai am amlygiad i'r iaith yn y sesiynau."

Fe wnaethom hefyd lansio ein llyfr babanod newydd sbon, Siarad Babi: Du a Gwyn / Baby Talk: Black and White, a fydd yn cael ei roi i bob babi newydd-anedig gan ymwelwyr iechyd.

**Grwpiau Darllen Cymraeg**

Mae gan lyfrgelloedd Corwen a Llangollen grwpiau misol, ac eleni ymwelodd yr awdur Haf Llewellyn â Grŵp Llangollen. Mae Sgwrs a Sangria yn parhau i gyfarfod bob deufis yn Llyfrgell Dinbych, ac mae gan Lyfrgell Rhuthun ddau grŵp cyfrwng Cymraeg, cylch darllen llyfrgell Rhuthun yn cyfarfod yn fisol ar brynhawn dydd Mawrth a Llyfr a Llymed yn cyfarfod bob yn ail fis ar nos Fawrth.

**Grŵp Sgwrsio**

Bellach mae sesiynau rheolaidd Paned a Sgwrs yn y Rhyl, Dinbych a Rhuddlan. Grwpiau sgwrsio anffurfiol yw'r rhain sy'n annog pobl i ddefnyddio'u Cymraeg a chael sgwrs dros baned o de neu goffi.

**Sialens Ddarllen yr Haf 2023: Ar eich marciau, darllenwch**

Gwelwyd cynnydd yn nifer y plant a gymerodd ran yn yr her ddarllen ddwyieithog, gyda chyfanswm o 2,478 o blant yn cymryd rhan. Benthycwyd dros 5,500 o lyfrau Cymraeg i blant yn ystod yr Her. Roedd gwefan Gymraeg ar gael i gefnogi'r her eto eleni (wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru) er mwyn i blant gymryd rhan yn rhithwir hefyd. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol yn cymryd rhan hefyd, er enghraifft, ymwelodd Ysgol Caer Drewyn â Llyfrgell Corwen ac ymwelodd Ysgol y Llys â Llyfrgell Prestatyn.

**Cylchoedd Ti a Fi / Clwb Cwtsh / Cymraeg i Blant**

Mae Cymraeg i Blant yn cynnal sesiynau rheolaidd i blant yn Llyfrgell Llanelwy, ac mae grwpiau Ti a Fi (Mudiad Meithrin) yn Llyfrgell y Rhyl a Llyfrgell Prestatyn.

**Digwyddiadau awduron**

Ym mis Mehefin ymwelodd y nofelydd Haf Llewelyn â Llyfrgell Dinbych i ddathlu rhyddhau ei nofel newydd, Salem, fel rhan o Ŵyl Ganol Haf Dinbych.

Ym mis Hydref cynhaliodd Dinbych noson gyda'r awdur Sian Rees i drafod ei thrydedd nofel, Adar Mud.

Yn ystod gwyliau'r Pasg fe wnaethom wahodd yr awdur plant Leisa Mererid i Brestatyn, Dinbych a Rhuthun i gynnal sesiynau dwyieithog i deuluoedd, a oedd yn cynnwys straeon, symudiad a chân.

**Benthyciadau llyfrau Cymraeg**

Benthycwyd 21,603 o eitemau Cymraeg (llyfrau, llyfrau sain a DVD) yn 2023-24, cynnydd o 10% o gymharu â 19,521 y flwyddyn flaenorol.  O'r rhain roedd 70% yn llyfrau plant, sy'n dangos y cyfraniad sylweddol a wneir gan lyfrgelloedd lleol i nod y Cyngor i gynyddu nifer y plant sy'n defnyddio'r iaith a derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Gyda dim ond dwy siop lyfrau Cymraeg yn y sir, mae'r llyfrgell leol yn ffynhonnell arwyddocaol o lyfrau Cymraeg yn y gymuned i blant ac oedolion.

**Diwrnod y Llyfr**

Bob blwyddyn mae'r llyfrgelloedd yn dathlu Diwrnod y Llyfr trwy ddosbarthu miloedd o dalebau Diwrnod y Llyfr am ddim. Eleni hefyd dosbarthodd ein llyfrgelloedd lyfrau rhad ac am ddim, gan gynnwys detholiad o deitlau Cymraeg a roddwyd i ni gan Siop Y Siswrn. Bwriad Diwrnod y Llyfr yw annog plant a phobl ifanc i ddarganfod pleser darllen trwy sicrhau bod pob unigolyn yn cael cyfle i fod yn berchen ar ei lyfr ei hun.

**Llyfrgelloedd Digidol Cymraeg**

Mewn partneriaeth â holl wasanaethau llyfrgell eraill Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru a Llywodraeth Cymru, mae gan ddefnyddwyr llyfrgelloedd fynediad i ystod o adnoddau darllen digidol (e-lyfrau, e-lyfrau llafar, cylchgronau) y gellir eu lawr lwytho yn rhad ac am ddim. Yn 2023-24 roedd dros 4400 o e-lyfrau a llyfrau sain Cymraeg i Oedolion, a dros 5400 o deitlau Cymraeg i blant ac oedolion ifanc ar gael i'w lawrlwytho ar Borrowbox.

**Gwasanaeth Cymraeg**

Gall 65% o staff y gwasanaeth siarad Cymraeg a darperir gwasanaeth Cymraeg ym mhob llyfrgell. Cefnogir staff i ddysgu'r iaith a datblygu eu sgiliau.

### Cynllunio’r Gweithlu

Mae disgwyl i bob gwasanaeth greu dogfen Cynllunio’r Gweithlu ac mae disgwyl i’r gwasanaethau ystyried os oes ganddynt ddigon o siaradwyr Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth gwbl ddwyieithog. Mae’r gwasanaeth hefyd yn cael eu herio gan yr Uwch Dim Rheoli a chynghorwyr parthed cydymffurfiaeth gyda’r Safonau Iaith.

## Safonau Iaith Gymraeg

Mae Safonau’r Gymraeg yn disgwyl i’r Cyngor adrodd, yn ei adroddiad monitro blynyddol, ar nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol.  Rhoddir crynodeb o’r wybodaeth isod.

### Cydymffurfiaeth â’r safonau Cyflenwi Gwasanaeth

- Rydym wedi cyfathrebu gyda staff ar ymateb i ohebiaeth, trefnu cyfarfodydd, cyfryngau cymdeithasol, negeseuon e-bost ac ateb y ffôn.
- Rydym wedi atgoffa staff i gyd yn rheolaidd iddynt roi cyfle i bobl gael eu trosglwyddo at siaradwr Cymraeg wrth gysylltu â’r Cyngor.
- Rydym wedi darparu geiriad i staff i’w cynnwys mewn templedi llythyrau, gan roi cyfle i breswylwyr ofyn am ohebiaeth drwy’r Gymraeg yn y dyfodol.
- Rydym yn cofnodi os yw unigolyn yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthym yn y Gymraeg yn unig, a byddwn yn gohebu â’r unigolyn hwnnw yn y Gymraeg yn unig yn y dyfodol.
- Rydym wedi rhoi gwybod i staff sy’n trefnu cyfarfodydd cyhoeddus bod yn rhaid i gyhoeddusrwydd / gwahoddiadau fod yn Gymraeg bob tro, y dylid trefnu cyfieithu ar y pryd ar gyfer pob cyfarfod cyhoeddus ac y dylai trefnwyr cyfarfodydd cyhoeddus atgoffa pobl ar ddechrau cyfarfodydd y medrant gyfrannu yn Gymraeg pe dymunir.
- Mae’r holl ddogfennau ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys deunyddiau hyrwyddo a dogfennau arddangosfa.

- Rydym wedi cynnwys y datganiad ar ein templedi ffurflenni a dogfennau Cymraeg/Saesneg fod y ffurflen/ddogfen ar gael yn Gymraeg/Saesneg hefyd.
- Mae'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen o'n gwefan yn ddwyieithog.
- Ymatebwn yn Gymraeg i bob ffurflen grant a dderbyniwn yn Gymraeg.
- Mae arwyddion wedi cael eu gosod mewn prif dderbynfeydd i ddatgan bod croeso i bobl gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae ein holl arwyddion yn Gymraeg ac yn cael eu gwirio.

## Cydymffurfiaeth â'r Safonau Gweithredu

- Rydym wedi cyflwyno proses Adnoddau Dynol yn gofyn i'r holl staff a ydynt am dderbyn eu contract cyflogaeth yn Gymraeg.
- Rydym wedi cynnwys tabl yn ein ffurflenni cais am swyddi sy'n holi beth yw lefel sgiliau iaith Gymraeg yr ymgeisydd
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn gohebiaeth bapur am eu cyflogaeth, ac sy'n cyfeirio atynt yn bersonol, yn Gymraeg.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn gohebiaeth bapur am eu hanghenion neu ofynion hyfforddiant yn Gymraeg.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn dogfennau sy'n disgrifio eu hamcanion perfformiad yn Gymraeg, a darparwn ddogfennau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn dogfennau sy'n disgrifio eu cynllun gyrfa yn Gymraeg, a darparwn ddogfennau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn ffurflenni sy'n cofnodi ac awdurdodi gwyliau blynyddol, absenoldeb o'r gwaith ac oriau hyblyg yn Gymraeg.
- Gall staff gyflwyno cwynion yn Gymraeg drwy weithdrefn cwynion corfforaethol gyda hyn wedi'i hysbysu i'r holl staff.
- Mae Gweithdrefn Cwynion Corfforaethol y Cyngor eisoes yn nodi bod gan staff hawl i wneud cwyn yn Gymraeg ac i ymateb i gŵyn a wneir amdanynt yn Gymraeg. Mae staff wedi eu hysbysu o'r hawliau hyn.

- Rhoddir cyfle i'r holl staff ofyn am unrhyw gyfarfod yn ymwneud â chwynion yn eu herbyn yn Gymraeg (gyda neu heb ddefnyddio cyfieithydd).
- Bydd cofnod o bob penderfyniad am gŵyn yn erbyn aelod o staff yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg (a chynhelir unrhyw gyfarfod wedyn yn Gymraeg).
- Mae ein polisïau Adnoddau Dynol yn nodi y gall staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn eu herbyn.
- Mae meddalwedd cyfrifiadurol gwirio sillafu a gramadeg wedi'i roi i'r holl staff sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg ynghyd â rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (fel Microsoft Word ac Outlook) yn Gymraeg.
- Rydym wedi cyfieithu testun tudalen gartref ein mewnrwyd i'r Gymraeg.
- Mae bob tudalen ar y fewnrwyd sydd â thudalen gyfatebol yn Gymraeg yn cynnwys dolen i'r dudalen iaith Gymraeg honno.
- Crëwyd tudalennau ar y fewnrwyd yn darparu gwasanaethau a deunyddiau cymorth er mwyn hybu'r Gymraeg a chynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar y fewnrwyd yn Gymraeg.
- Mae'r Cyngor wedi cyflawni asesiad o sgiliau Iaith Gymraeg ei staff drwy hunanasesiad yn dilyn y Fframwaith newydd.
- Mae'r Cyngor yn hyrwyddo pob cyfle yn ystod oriau gwaith i staff fynychu cyrsiau Iaith Gymraeg sylfaenol.
- Mae'r Cyngor yn rhoi cyfle i staff sydd am barhau â'u hyfforddiant Iaith Gymraeg sylfaenol i dderbyn hyfforddiant pellach.
- Mae gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn cael ei rhoi i bob aelod newydd o staff.
- Rydym wedi darparu logo iaith gwaith a geiriad i staff eu defnyddio yn eu llofnodion e-bost i hysbysu pobl os ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu'n ddysgwyr.
- Rydym wedi creu dogfen hunanasesu newydd i fesur perfformiad gwasanaethau o ran Safonau'r Iaith Gymraeg. Mae pob un adran o fewn y cyngor wedi cwblhau'r holiadur sy'n holi beth yw lefel eu cydymffurfiaeth â'r Safonau fel ein bod yn cael darlun cyflawn o'n cydymffurfiaeth ar draws y cyngor, bod yn ymwybodol o'r gwendidau/cryfderau a ble sydd angen atgyfnerthu'r safonau.

### Cydymffurfiaeth â’r Safonau Llunio Polisi

- Rydym wedi hysbysu rheolwyr i ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw’r rheini’n bositif neu’n andwyol) y byddai’r penderfyniad polisi yn ei gael ar y cyfleoedd i staff ddefnyddio’r Gymraeg, a sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg.
- Pan fydd polisi newydd yn cael ei lunio neu’i ddiwygio, rydym yn sicrhau bod yr holl reolwyr yn gwybod am yr angen i ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar yr iaith Gymraeg.
- Rydym wedi creu polisi ar ddefnyddio’r Gymraeg yn fewnol er mwyn hybu a hwyluso defnyddio’r iaith ac mae’r ddogfen hon wedi’i chyhoeddi ar ein mewnrwyd.
- Rydym wedi creu Polisi ar ddyfarnu grantiau er mwyn cynorthwyo swyddogion i sicrhau bod yr ystyriaethau uchod yn elfen integredig o'r broses grantiau yng Nghyngor Sir Ddinbych.
-

## Cwynion

| **Dosbarth o Safonau** | **Cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol** |
|---|---|
| Cyflenwi gwasanaethau | 3 |
| Llunio polisi | 0 |
| Gweithredu | 0 |

| Dyddiad | Cwyn | Manylion | Camau a gymerwyd |
|---|---|---|---|
| Awst 2023 | 1. Derbyniodd yr achwynydd ymateb Saesneg i gŵyn a wnaed yn Gymraeg. | Siaradodd yr achwynydd ag aelod o staff yn Gymraeg gan ofyn iddynt gofnodi cais penodol. Pan gofnodwyd y cais yn system C360, fe'i gwnaed yn Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg a arweiniodd wedyn at ymateb Saesneg. Mae angen newid y dewis iaith o fewn y meddalwedd i sicrhau bod y cais yn cael ei gofnodi yn yr iaith a ddymunir. | Cysylltwyd â phob rheolwr yn y Cyngor ac atgoffwyd bod angen i staff ddewis yr opsiwn iaith cywir yn y feddalwedd C360 wrth wneud nodyn o gwynion / ceisiadau ac atgoffwyd y rheolwyr i gyd o'r staff. |
| Medi 2023 | 2.<br><br>Ymchwiliad gan y Comisiynydd Iaith o dan adran 71 Mesur y Gymraeg yn erbyn Hamdden Sir Ddinbych (HSDd) | Derbyniwyd cwyn ar 6 Medi gan aelod o'r cyhoedd i'r Comisiynydd Iaith am wefan HSDd am amserlenni nofio uniaith Saesneg.<br><br>Ar 11 Medi, hysbyswyd y Cyngor a chysylltodd y Swyddog Iaith â HSDd yn gofyn iddynt wirio'r gwall. Erbyn 4 Hydref, codwyd y mater eto gan nad oedd y gwaith wedi ei gwblhau. Cytunwyd gan HSDd y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau erbyn 18 | Mae HSDd wedi cywiro gwallau technegol o fewn ei wefan a'i raglen amserlennu cyfryngau cymdeithasol i sicrhau bod negeseuon a thudalennau'n cael eu postio'n ddwyieithog bob tro.<br><br>Mae'r Cyngor wedi atgoffa HSDd o'i gyfrifoldebau o ran cyfryngau cymdeithasol a gwefan yn unol â pharagraffau 8.9 ac 8.1 o'r Polisi Iaith Gymraeg:<br><br>**Cyfryngau Cymdeithasol**<br><br>8.9 Wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |

| Dyddiad | Cwyn | Manylion | Camau a gymerwyd |
|---|---|---|---|
| | | Hydref, ond ni chafodd y gwaith ei gwblhau a darganfuwyd mwy o amserlenni nad oedd yn cydymffurfio yn ogystal â negeseuon cyfryngau cymdeithasol nad oedd yn cydymffurfio.<br><br>Agorwyd ymchwiliad swyddogol ac ymatebodd y Cyngor i'r ymchwiliad ar 8 Ebrill 2024. | Mae hyn yn golygu:<br><br>(a) Dylai fod gennych naill ai gyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân neu gyfrif dwyieithog<br><br>(b) Dylid gosod unrhyw negeseuon ar gyfrifon uniaith Saesneg mewn cyfrif arall yn Gymraeg ar yr un pryd yn union.<br><br>(c) Dylid postio unrhyw negeseuon ar gyfrifon dwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd<br><br>(d) Os oes gennych gyfrif dwyieithog yn hytrach na chyfrif Cymraeg a Saesneg ar wahân, mae angen i enw'r cyfrif fod yn ddwyieithog hefyd, gyda'r Gymraeg yn gyntaf a'r Saesneg wedyn. (Safon 58)<br><br>8.10 Os bydd rhywun yn cysylltu â chi trwy gyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, atebwch yn Gymraeg hefyd. (Safon 59)<br><br>**Gwefannau**<br><br>8.1 Rhaid sicrhau:<br><br>(a) bod testun pob tudalen ar unrhyw wefan y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdani ar gael yn Gymraeg a Saesneg,<br>(b) bod yr holl dudalennau Cymraeg ar unrhyw wefan sydd gennym yn gwbl weithredol, a<br>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r |

| Dyddiad | Cwyn | Manylion | Camau a gymerwyd |
|---|---|---|---|
| | | | Saesneg ar unrhyw wefan sydd gennym (Safon 52)<br>8.2 Ar unrhyw wefan y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdani, rhaid sicrhau bod modd newid o un iaith i'r llall trwy fotwm sy'n gallu newid o'r dudalen Gymraeg i'r un dudalen yn Saesneg ac i'r gwrthwyneb yn gwbl ddidrafferth. (Safon 52)<br><br>8.3 Rhaid i'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar unrhyw wefan y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdani fod yn Gymraeg ac yn Saesneg. (Safon 56)<br><br>Mae'r Cyngor yn monitro cyfryngau cymdeithasol a gwefan DLL yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a'n Polisi Iaith Gymraeg. Os oes unrhyw bryderon, codir y rhain yn uniongyrchol gyda'r cwmni. Wrth symud ymlaen ac unwaith y bydd DLL wedi sefydlu ei asesiad blynyddol, fel rhan o'n proses ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth, byddwn yn gofyn am gopïau o'u Hasesiad Iaith Gymraeg blynyddol i'w hystyried gan y Cyngor. |
| | 3.<br><br>Achwynydd wedi derbyn ymateb uniaith Saesneg i ymholiad yn y Gymraeg. | Atebodd Gynghorydd, sy'n Aelod Arweiniol, e-bost yn Gymraeg gan ddweud nad oedd yn gallu ateb y cwestiwn gan nad | Darparwyd ymateb yn Gymraeg i'r ymholiad gwreiddiol.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Aelod Arweiniol â chyfrifoldeb dros y Gymraeg â'r Aelod |

| **Dyddiad** | **Cwyn** | **Manylion** | **Camau a gymerwyd** |
|---|---|---|---|
| | | oedd yn deall Cymraeg. | Arweiniol gan ei atgoffa o'i gyfrifoldebau o ran cydymffurfio â gofynion y Polisi Iaith.<br><br>Yn ogystal, mae bwriad i gynnal gweithdy gyda holl aelodau'r Cyngor i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. |

## Sgiliau Cymraeg Cyflogeion

Cyflwynir isod y wybodaeth sydd gan y Cyngor yn bresennol. Bwydir y wybodaeth yma'n ôl i'r gwasanaethau fel bo'r Penaethiaid Gwasanaeth yn gallu cynllunio eu gweithluoedd.

### Canlyniadau Corfforaethol yn unig (ac eithrio ysgolion)

| **Lefel** | **Gwrando a siarad** | | **Darllen a deall** | | **Ysgrifennu** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| **Lefel 0** | 299 | 12.00 | 392 | 15.73 | 602 | 24.16 |
| **Lefel 1** | 840 | 33.71 | 803 | 32.22 | 643 | 25.80 |
| **Lefel 2** | 261 | 10.47 | 208 | 8.35 | 248 | 9.95 |
| **Lefel 3** | 129 | 5.18 | 128 | 5.14 | 123 | 4.94 |
| **Lefel 4** | 145 | 5.82 | 158 | 6.34 | 99 | 3.97 |
| **Lefel 5** | 142 | 5.70 | 135 | 5.42 | 109 | 37.33 |
| **Dim gwybodaeth** | 676 | 27.13 | 668 | 26.81 | 668 | 26.81 |
| **Cyfanswm** | **2492** | | **2492** | | **2492** | |

## Sgiliau Gwrando a Siarad fesul Gwasanaeth (ac eithrio ysgolion)

| Gwasanaeth | Lefel 0 | | Lefel 1 | | Lefel 2 | | Lefel 3 | | Lefel 4 | | Lefel 5 | | Dim gwybodaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| **Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd** | 90 | 3.61 | 177 | 7.10 | 53 | 2.13 | 28 | 1.12 | 28 | 1.12 | 23 | 0.92 | 164 | 6.58 |
| **Cymorth Corfforaethol - Pobl** | 9 | 0.36 | 41 | 1.65 | 14 | 0.56 | 7 | 0.28 | 13 | 0.52 | 13 | 0.52 | 20 | 0.80 |
| **Cymorth Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau** | 18 | 0.72 | 52 | 2.09 | 22 | 0.88 | 11 | 0.44 | 10 | 0.40 | 11 | 0.44 | 12 | 0.48 |
| **Addysg a Phlant** | 36 | 1.44 | 101 | 4.05 | 41 | 1.65 | 18 | 0.72 | 22 | 0.09 | 28 | 1.12 | 126 | 5.06 |
| **Cyllid ac Archwilio** | 2 | 0.08 | 28 | 1.12 | 6 | 0.24 | 5 | 0.20 | 5 | 0.20 | 6 | 0.24 | 48 | 1.93 |
| **Priffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol** | 113 | 4.53 | 275 | 11.03 | 57 | 2.29 | 33 | 1.32 | 25 | 1.00 | 21 | 0.84 | 197 | 7.91 |
| **Tai a Chymunedau** | 24 | 0.96 | 87 | 3.49 | 33 | 1.32 | 16 | 0.64 | 26 | 1.04 | 22 | 0.88 | 37 | 1.48 |
| **Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad** | 31 | 1.24 | 79 | 3.17 | 35 | 1.40 | 11 | 0.44 | 16 | 0.64 | 18 | 0.72 | 72 | 2.89 |
| **Cyfanswm** | **299** | **12.00** | **840** | **33.71** | **261** | **10.47** | **129** | **5.18** | **145** | **5.82** | **142** | **5.70** | **676** | **27.13** |

## Sgiliau Darllen a Deall

| Gwasanaeth | Lefel 0 | | Lefel 1 | | Lefel 2 | | Lefel 3 | | Lefel 4 | | Lefel 5 | | Dim gwybodaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| **Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd** | 116 | 4.65 | 164 | 6.58 | 42 | 1.69 | 24 | 0.96 | 27 | 1.08 | 27 | 1.08 | 162 | 6.50 |
| **Cymorth Corfforaethol - Pobl** | 12 | 0.48 | 31 | 1.24 | 11 | 0.44 | 9 | 0.36 | 13 | 0.52 | 14 | 0.56 | 18 | 0.72 |
| **Cymorth Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau** | 17 | 0.68 | 58 | 2.33 | 18 | 0.72 | 6 | 0.24 | 12 | 0.48 | 11 | 0.44 | 12 | 0.48 |
| **Addysg a Phlant** | 41 | 1.65 | 101 | 4.05 | 33 | 1.32 | 19 | 0.76 | 29 | 1.16 | 23 | 0.92 | 124 | 4.97 |
| **Cyllid ac Archwilio** | 4 | 0.16 | 25 | 1.00 | 7 | 0.28 | 3 | 0.12 | 8 | 0.32 | 5 | 0.20 | 46 | 1.85 |
| **Priffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol** | 130 | 5.22 | 261 | 10.47 | 53 | 2.13 | 29 | 1.16 | 26 | 1.04 | 19 | 0.76 | 197 | 7.91 |
| **Tai a Chymunedau** | 31 | 1.24 | 88 | 3.53 | 17 | 0.68 | 25 | 1.00 | 24 | 0.96 | 21 | 0.84 | 37 | 1.48 |
| **Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad** | 41 | 1.65 | 75 | 3.01 | 27 | 1.08 | 13 | 0.52 | 19 | 0.76 | 15 | 0.60 | 72 | 2.89 |
| **Cyfanswm** | **392** | **15.73** | **803** | **32.22** | **208** | **8.35** | **128** | **5.14** | **158** | **6.34** | **135** | 5.42 | **668** | **26.81** |

## Sgiliau Ysgrifennu

| Gwasanaeth | Lefel 0 | | Lefel 1 | | Lefel 2 | | Lefel 3 | | Lefel 4 | | Lefel 5 | | Dim gwybodaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| **Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd** | 172 | 6.90 | 111 | 4.45 | 84 | 3.37 | 23 | 0.92 | 15 | 0.60 | 18 | 0.72 | 162 | 6.50 |
| **Cymorth Corfforaethol - Pobl** | 24 | 0.96 | 29 | 1.16 | 14 | 0.56 | 10 | 0.40 | 9 | 0.36 | 9 | 0.36 | 18 | 0.72 |
| **Cymorth Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau** | 40 | 1.61 | 42 | 1.69 | 16 | 0.64 | 5 | 0.20 | 8 | 0.32 | 11 | 0.44 | 12 | 0.48 |
| **Addysg a Phlant** | 67 | 2.69 | 85 | 3.41 | 31 | 1.24 | 20 | 0.80 | 11 | 0.44 | 22 | 0.88 | 124 | 4.97 |
| **Cyllid ac Archwilio** | 15 | 0.61 | 17 | 0.68 | 8 | 0.32 | 4 | 0.16 | 6 | 0.24 | 2 | 0.08 | 46 | 1.85 |
| **Priffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol** | 158 | 6.34 | 233 | 9.35 | 50 | 2.01 | 28 | 1.12 | 20 | 0.80 | 17 | 0.68 | 197 | 7.91 |
| **Tai a Chymunedau** | 60 | 2.41 | 65 | 2.61 | 23 | 0.92 | 22 | 0.88 | 17 | 0.68 | 18 | 0.72 | 37 | 1.48 |
| **Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad** | 66 | 2.65 | 61 | 2.45 | 22 | 0.88 | 11 | 0.44 | 13 | 0.52 | 12 | 0.48 | 72 | 2.89 |
| **Cyfanswm** | **602** | **24.16** | **643** | **25.80** | **248** | **9.95** | **123** | **4.94** | **99** | **3.97** | **109** | **4.37** | **668** | **26.81** |

### Fframwaith Sgiliau Iaith Gymraeg

Rydym yn parhau i weithredu'r Fframwaith sydd yn ffordd syml i staff hunan asesu eu sgiliau iaith yn seiliedig ar y mathau o dasgau cyfathrebu (darllen, ysgrifennu, siarad a deall) y gallent eu cyflawni trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn ffordd effeithiol o fedru monitro pa lefel o sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swydd a pha gwrs y bydd gweithwyr ei angen er mwyn symud i'r lefel nesaf. Mae dilyn y fframwaith hwn yn ein galluogi i gefnogi gweithwyr ar eu taith iaith er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

## Gwersi Cymraeg

Dyma'r nifer o aelodau staff y Cyngor fynychodd wersi Cymraeg drwy gynllun 'Cymraeg Gwaith' gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol:-

| Lefel | Nifer |
|---|---:|
| **Cwrs Blasu** | 0 |
| **Mynediad** | 21 |
| **Sylfaen** | 3 |
| **Canolradd** | 0 |
| **Uwch** | 0 |
| **Hunan Astudio** | 8 |
| **Cyfanswm** | 32 |

Mae cyrsiau blasu Cymraeg 10 awr ar-lein ar gael i'r rheiny sydd eisiau dechrau ar eu taith iaith. Mae'r cyrsiau hyn yn cyflwyno geirfa ac ymadroddion pob dydd ac maen nhw ar gael i bawb, yn rhad ac am ddim. Mae rhai cyrsiau wedi eu teilwra ar gyfer gwahanol sectorau sef y sector iechyd, gofal, gwasanaethau cyhoeddus, athrawon, penaethiaid, twristiaeth, manwerthu, twristiaeth Cymru, sefydliad y marched a gwybodaeth am y Gymraeg sydd wedi'i deilwra ar gyfer Darparwyr Gofal Plant.

## Cynnydd gyda fframwaith ‘Mwy na Geiriau’

O fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych mae ymrwymiad clir i wella gwasanaethau i sicrhau bod y Gymraeg yn elfen allweddol o ofal, gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan y sector annibynnol.  Mae’r gwaith hwn wedi’i arwain gan Fframwaith Mwy na Geiriau (2022-27).

Rydym yn parhau i hyrwyddo’r Gymraeg o fewn y gwasanaethau Oedolion a Phlant mewn sesiynau sefydlu ar gyfer staff newydd.  Yn ogystal, atgoffir staff yn rheolaidd o ofynion Safonau’r Gymraeg.  Rydym yn rhannu manylion y modiwl e-ddysgu sy’n codi ymwybyddiaeth o’r Gymraeg a ddatblygwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Mae hwn wedi ei ddatblygu ar gyfer gweithwyr a myfyrwyr ym maes gofal cymdeithasol sy’n dymuno dysgu mwy am y Gymraeg, ei diwylliant a gweithio’n ddwyieithog gan ddefnyddio adnoddau ‘Defnyddio’r Gymraeg yn y Gweithle’ https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/defnyddior-gymraeg-yn-y-gweithle.

Rydym hefyd wedi comisiynu cyrsiau sgiliau Cymraeg lefel Cwrteisi ar gyfer staff a hefyd hyrwyddo ystod o gyfleoedd hyfforddiant iaith (cyrsiau Cymraeg Gwaith a hefyd y cwrs Camau-Cymraeg. https://gofalcymdeithasol.cymru/straeon-newyddion/cwrs-cymraeg-camau

Yn ogystal mae’r tîm Gwasanaethau Oedolion wedi cymryd rhan yn y Prosiect Arfer a ddarperir gan Brifysgol Bangor sy’n cynnig cyfleoedd i staff gynyddu eu hyder i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg.

Mae’r camau y mae tîm Gwasanaethau Oedolion Sir Ddinbych wedi’u rhoi ar waith yn ystod 2023-24 yn cynnwys cynnal archwiliad o sut mae gwasanaethau yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd, ochr yn ochr â gwaith i sicrhau gwelliant a rhannu arfer gorau wrth ddarparu’r ‘cynnig gweithredol’.  Mae’r tîm Contractau a Chomisiynu hefyd wedi cynnal archwiliad o ddarparwyr gofal Sir Ddinbych er mwyn asesu i ba raddau y maent yn bodloni gofynion ‘cynnig gweithredol’ Mwy na Geiriau.  Mae sesiwn rhannu gwybodaeth wedi'i chynllunio ar gyfer digwyddiad darparwr yn y dyfodol er mwyn rhannu enghreifftiau o arfer gorau, ynghyd â rhannu adnoddau a gwybodaeth.

Yn olaf, rydym wedi parhau i gynyddu ymwybyddiaeth y sector o’r Cynnig Rhagweithiol. Mae posteri, cortynnau gwddf a sticeri yn cael eu dosbarthu yn ogystal â’r adnoddau sydd newydd eu cynhyrchu sydd wedi’u cynhyrchu gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru gyda mewnbwn gan Fforwm Mwy Na Geiriau Gogledd Cymru https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/blaenoriaethau-rhanbarthol/mwynageiriau/

## Diweddariad Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg

### Deilliant 1

### Cam Gweithredu: - Mwy o blant meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cynyddu argaeledd lleoedd cyfrwng Cymraeg**

**Darpariaeth cyn oed ysgol**

Mae Canolfan y Dderwen wedi sefydlu ac yn derbyn plant ym mis Medi. Mae’r Ganolfan wedi penodi arweinydd i’r Cylch Meithrin newydd ac mae 2 fws mini trydan eisoes yn cludo plant i Ysgol Dewi Sant.

Mae’r  sefyllfa yn Ysgol Dewi Sant yn broblem y tu hwnt i allu’r awdurdod i’w ddatrys oherwydd problemau carthffosiaeth a chyflenwad dwr. Ni fydd y Cyngor yn cael caniatâd cynllunio ar y safle nes bod y gwaith yma’n cael ei ddatrys gan Dŵr Cymru.

Mae gwaith adeiladu wedi dechrau yn Ysgol Twm o’r Nant gan obeithio gorffen erbyn diwedd yr Haf.

Mae cais/cyflwyniad i ddatgan diddordeb i Lywodraeth Cymru ar brosiectau eraill ar gyfer darpariaeth cyn-ysgol wedi ei wneud.

**Hyrwyddo dwyieithrwydd ac addysg Gymraeg**

Mae tudalennau’r adran addysg ar wefan Cyngor Sir Ddinbych wedi ei ddiweddaru ac yn hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. Mae llawer o wybodaeth ar y wefan am fanteision

addysg Gymraeg, ble i gael cymorth, yr ysgolion Cymraeg, cefnogaeth i hwyrddyfodiaid a dosbarthiadau trochi.

Mae gwybodaeth am fanteision addysg Gymraeg hefyd yn cael eu rhannu'n rheolaidd ar blatfformau digidol eraill y sir.

Mae cardiau post yn cael eu cynhyrchu mewn partneriaeth gyda Menter Iaith er mwyn rhannu gwybodaeth am fanteision bod yn ddwyieithog ac addysg Gymraeg. Bydd y cardiau yn cael eu rhannu i randdeiliaid perthnasol e.e. ymwelwyr iechyd, bydwragedd, Mudiad Meithrin, ysgolion a.y.y.b. Bydd codau QR ar y cardiau er mwyn i ddarpar rieni gael mynediad at y wybodaeth ddiweddaraf am addysg Gymraeg a dwyieithrwydd.

## Deilliant 2

## Cam gweithredu: - Mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

### Cynyddu capasiti mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg

Mae'r Sir wedi derbyn grant cyfalaf i ddatblygu/greu estyniadau i 4 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg (Ysgolion Bro Cinmeirch, Bro Elwern, Henllan a Tremeirchion). Mae angen rhoi'r cynlluniau hyn ar waith i ddylunio a thendro contractwyr, ond yn gyntaf, mae angen sicrhau cyllid ac mae'r prosiectau angen mynd i'r grŵp cyfalaf mewnol sy'n craffu ar brosiectau newydd.

Mae heriau wedi codi sy'n arafu'r gwaith ar ddatblygu adeilad Ysgol y Gwernant - mae ardal Llangollen & Dyfrdwy yn '*phosphate vulnerable zone'* sy'n cyfyngu ar ganiatâd cynllunio. Yr ail her ydi bod costau adeiladu wedi cynyddu 20% yn y flwyddyn ddiwethaf. Bydd yr adran moderneiddio addysg yn parhau i weithio ar yr heriau hyn i sicrhau bod y gwaith yn digwydd.

Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd gyda phenaethiaid a llywodraethwyr 6 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, i fapio eu taith iaith ieithyddol, mae chwe ysgol wedi nodi yn PLASC eu bod yn ysgolion T2 - Carrog, Caer Drewyn, Dyffryn Iâl, Bryn Clwyd, Frongoch, Esgob Morgan.

Awgrymwyd i lywodraethwyr unig ysgol C2 y Sir, y dylai'r ysgol fod yn ysgol categori T3 ac yn cynllunio i fod yn ysgol gwbl Gymraeg ymhen cyfnod penodedig. Nododd Ysgol Llanfair y byddant yn aros yn ysgol categori 2 ond yn rhoi trefniadau mewn lle mai ond trwy gyfrwng y Gymraeg bydd dysgwyr y cyfnod sylfaen yn derbyn eu haddysg. Eleni yw'r flwyddyn gyntaf i hyn gael ei weithredu i'r dosbarth meithrin.

Bydd gwaith dichonolrwydd yn dechrau yn nhymor yr haf yn edrych ar y galw am ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng ngogledd y Sir.

## Deilliant 3

## Cam gweithredu: - Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall.

Mae'r tîm yn parhau i gydlynu gweithgareddau, hyfforddiant a chreu a rhannu adnoddau dysgu fel bo dysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg ar draws pob sector.

Mae banc o adnoddau wedi ei greu gan swyddogion ar gyfer athrawon ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r adnoddau'n cynnwys tasgau a gweithgareddau i ddatblygu sgiliau llafar plant ac yn lleihau yn fawr ar faich gwaith athrawon. Rydym hefyd yn cydweithio'n agos gyda swyddogion o Sir Conwy i gyd-gynllunio rhaglen o gefnogaeth i athrawon.

Mae swyddogion hefyd, yn rhan o broses cynllunio ysgolion wrth iddynt fapio sut i ddatblygu'r Gymraeg yn eu sefydliadau.

Mae model hyblyg iawn o gefnogi hwyrddyfodiaid yn y sir, sy'n rhoi cefnogaeth ddyddiol i'r dysgwyr. Gwelwyd y nifer yn derbyn cefnogaeth yn tyfu pob tymor eleni – Hydref - 5 disgybl, Gwanwyn – 6 disgybl a'r Haf - 7 disgybl. Mae'r ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael eu hannog i hysbysu ar eu platfformau cyfathrebu ,bod cefnogaeth ar gael i hwyrddyfodiaid.

Mae Ysgol Brynhyfryd yn bwriadu agor dosbarth trochi ar ôl i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau. Mae'r Sir wedi derbyn grant cyfalaf i ddatblygu uned drochi a bydd yr awdurdod yn cydweithio'n agos gyda'r ysgol i yrru'r cynllun yn ei flaen.

## Deilliant 4

## Cam gweithredu: - Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r ddwy ysgol uwchradd dwy ffrwd yn ysgolion Categori 2 o dan y drefn categoreiddio newydd. Mae trafodaethau yn parhau i gynyddu'r nifer o bynciau a addysgir trwy'r Gymraeg yn y ddwy ysgol yma.

Mae cyfarfodydd rhwydweithio i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg a Chymraeg yn datblygu'n dda.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i greu rhaglen pontio traws sirol cadarn a chodi'r cwestiwn gyda rhieni ym mlwyddyn 5 o ran pa ffrwd / ysgol uwchradd y mae'r disgyblion am ddewis. Mae angen atgyfnerthu'r neges a'r disgwyliad bod plant yn derbyn addysg Gymraeg o'r meithrin tan 16 +.

Mae 15 o ddisgyblion wedi cofrestru ar gyfer y dosbarth trochi yn Ysgol Glan Clwyd.

## Deilliant 5

## Cam gweithredu: - Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.

Yn absenoldeb fframwaith cenedlaethol, penderfynwyd creu fframwaith Cymraeg Campus Uwchradd ar gyfer Sir Ddinbych. Mae'r fframwaith wedi ei greu a'i rannu gyda'r cydlynwyr a thimau rheoli'r 7 ysgol uwchradd sy'n cyflwyno Cymraeg fel ail iaith. Mae'r 7 ysgol wedi ymrwymo i weithredu CC i ddatblygu'r Gymraeg. Mae adnoddau ar gael a chefnogaeth i ysgolion i dderbyn y wobr efydd, arian ac aur. Mae Ysgol Uwchradd Dinbych eisoes wedi llwyddo i ennill y wobr efydd.

Bydd y Llywodraeth yn lansio canllawiau newydd ar gyfer Siarter Iaith a Chymraeg Campus ym mis Mehefin.

Mae llawer iawn o fwrlwm a gweithgareddau Cymraeg yn yr ysgolion fel rhan o weithgareddau'r Siarter Iaith / Cymraeg Campus.

Mae hyfforddiant datblygu llafaredd plant gydag athrawon ysgolion Cymraeg y sir yn datblygu’n effeithiol.

Mae’r cyngor yn cydweithio’n agos iawn gyda’r partneriaid megis yr Urdd, a Menter Iaith, i gydgynllunio rhaglen waith a chydlynu gweithgareddau a fydd yn cefnogi blaenoriaethau yn y cynllun yma.

## Deilliant 6

## Cam gweithredu: - Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”) (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)

Mae llawer o waith wedi ei wneud yn y deilliant yma i gywain gwybodaeth am y gefnogaeth trwy’r Gymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Rhannwyd holiaduron gydag adrannau ADY y Sir, ysgolion arbennig a chydlynwyr ADY mewn ysgolion Cymraeg. Wedi dadansoddi’r ymatebion, y brif neges oedd bod yr awdurdod yn llwyddo i ddarparu cefnogaeth trwy’r Gymraeg i ddysgwyr ADY a bod cynnig trwy’r Gymraeg i ddysgwyr mewn nifer o wahanol feysydd. Mae staff ADY yr awdurdod yn cynnig gwasanaeth dwyieithog, mae’r ysgolion arbennig yn cynnig addysg a chefnogaeth ddwyieithog ac mae cydlynwyr ADY ysgolion Cymraeg y sir yn derbyn cefnogaeth dda gan y sir. Er hyn, mae prinder adnoddau Cymraeg yn broblem a bod recriwtio staff sy’n medru siarad Cymraeg yn heriol iawn.

Mae gwybodaeth am ddarpariaeth ADY trwy gyfrwng y Gymraeg wedi ei ddiweddaru ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

## Deilliant 7

## Cam gweithredu: - Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

Mae Tîm Cefnogi’r Gymraeg a’r rhanbarth yn parhau i ddatblygu rhaglenni hyfforddiant i staff mewn ysgolion ar addysgeg a dulliau addysgu Cymraeg.

Mae pob ysgol bellach wedi derbyn yr arian grant i ddatblygu’r gweithlu. Bydd angen gwerthuso’r prosiectau hyn ddiwedd y flwyddyn.

Mae angen casglu’r holl wybodaeth am gyfleoedd dysgu Cymraeg ar un platfform, sy’n hawdd ei ddeall ac ar gyfer pob lefel gan gydweithio gyda Swyddog Iaith Sir Ddinbych.

Mae angen cydweithio gyda Llywodraeth Cymru a chael hyfforddiant ar sut i wneud y defnydd orau o arolwg SWAC.

Rydym mewn cysylltiad gyda swyddogion o *Dysgu Cymraeg,* sydd wrthi’n cynllunio rhaglenni cenedlaethol i hyfforddi’r gweithlu i ddysgu siarad Cymraeg.